Our Vale · Ein Bro

Vale of Glamorgan
Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus Bro Morgannwg

crynodeb o

# Asesiad Llesiant Bro Morgannwg

# Vale of Glamorgan Well-being Assessment

executive summary

## Cyfle Newydd

Mae'r asesiad llesiant cyntaf a gyhoeddwyd gan **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg (BGC) 'Ein Bro'** yn dwyn ynghyd gyfoeth o wybodaeth am fywyd ym Mro Morgannwg. Rydym wedi edrych ar lawer o wahanol fathau o ddata ac ymchwil ac wedi gweithio'n galed i ymgysylltu â thrigolion er mwyn deall yr hyn sy'n dda am fywyd yn y Fro a beth fyddai'n gwella llesiant lleol. Mae'r asesiad yn gyfle gwirioneddol i'n helpu i wybod mwy am ein cymunedau a'r bobl sy'n eu ffurfio. Bydd yr asesiad hwn yn llywio ein hamcanion llesiant a'n cynllun i wella llesiant ein cymunedau yn awr ac yn y dyfodol.

Dim ond dechrau taith gyffrous yw'r cyhoeddiad hwn o'n hasesiad llesiant cyntaf. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yw'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth o'i fath, a daeth i rym ym mis Ebrill 2016 gyda'r prif nod o sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cyflwyno cyfle gwirioneddol i sicrhau newid ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Gan weithio gyda'n gilydd, rhaid i ni geisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Rydym yn cydnabod bod hyn yn her, ond mae'n un yr ydym yn awyddus i'w chofleidio; mae'r asesiad llesiant yn offeryn hanfodol i'n helpu i gyflawni hyn.

Noda'r Ddeddf **saith nod llesiant** i Gymru er mwyn gwella llesiant ein cymunedau a chyflawni'r Gymru yr ydym yn dymuno ei chael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rhaid i'r BGC uchafu ein cyfraniad tuag at gyflawni'r nodau hyn, a bydd yr asesiad a'r cynllun llesiant yn helpu i sicrhau ein bod yn gallu gwneud hyn ac y cawn ein dwyn i gyfrif am ein cynnydd.

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| Cymru gydnerth | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

## Ynglŷn â'n  Hasesiad

Mae'r asesiad yn ystyried cyflwr llesiant ar draws y cyfan o'r ardal ac o fewn cymunedau penodol. Hefyd ystyria'r asesiad lesiant grwpiau penodol o bobl o fewn yr ardal, rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol ar gyfer yr ardal, a set o **ddangosyddion cenedlaethol** a ddatblygwyd i fesur cynnydd Cymru tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol.

Cydnabyddir y gall llesiant olygu gwahanol bethau i wahanol bobl a gall ddibynnu ar gymaint o ffactorau gwahanol, gan gynnwys eich oed, lle rydych chi'n byw, eich iechyd neu hyd yn oed y tywydd! Mae'r asesiad hwn yn cydnabod y gwahaniaethau hyn ac yn ymdrechu i ddangos yr amrywiaeth o fywyd yn y Fro a'r ystod eang o ffactorau sy'n gallu effeithio ar lesiant.

Ystyriwyd amrywiaeth o ffynonellau o dystiolaeth gan gynnwys data ystadegol, gwybodaeth ymgysylltu ac ymchwil academaidd fel rhan o'r asesiad, sydd wedi rhoi cyfle i ddal cryfderau ac asedau pobl a chymunedau Bro Morgannwg. Yn ogystal, rydym wedi cymryd i ystyriaeth ddarganfyddiadau ystod o asesiadau statudol ychwanegol gan gynnwys yr Asesiad o anghenion y Boblogaeth fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Yn ychwanegol at gasglu a dadansoddi gwahanol ffynonellau tystiolaeth, hysbyswyd yr asesiad gan ystod o waith ymgysylltu a wnaed gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid drwy'r **ymgyrch ymgysylltu Amser Siarad**.  Mae adroddiad ar gael sy'n rhoi trosolwg o'r ymgyrch a'r canfyddiadau allweddol.

Mae'r asesiad llesiant yn broses o wella ein sylfaen dystiolaeth yn barhaus a siarad gyda'n cymunedau i sicrhau bod gennym y sylfaen orau bosibl ar gyfer cynllunio llesiant ym Mro Morgannwg. Bydd gwaith yn parhau i wella asesu, ymgysylltu â'n trigolion a chynhyrchu Cynllun Llesiant BGC. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau allweddol ein hasesiad, sydd wedi ei strwythuro o amgylch nifer o prif ffactorau tuag at gael llesiant da:

- **Ein Hamgylchedd**
- **Cael Dyfodol Iach a Gweithgar**
- **Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol**
- **Uchafu Cyfleoedd a Chyrhaeddiad**

Yn ogystal â'r crynodeb gweithredol hwn, mae'r asesiad yn cynnwys cyfres o gynhyrchion fel yr amlinellir isod:

- Dogfen Trosolwg Asesiad o Lesiant – Mae hyn yn gweithio fel y prif ddogfen a dylid ei hystyried fel 'yr asesiad'. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu darganfyddiadau'r asesiad a'r cysylltiadau cydgysylltiedig rhwng pob rhan.
- Pedwar adroddiad tystiolaeth manwl – 'Having a Healthy and Active Future', 'Being Part of Safe and Inclusive Communities', 'Maximising Opportunities and Attainment' ac 'Our Environment'.
- Proffiliau Ardal Gymunedol a fydd yn cynnwys darganfyddiadau allweddol o'r asesiad ar gyfer y Fro yn ei chyfanrwydd a phob un o'r tair ardal gymunedol - Y Barri, Dwyrain y Fro a Gorllewin y Fro.
- Adroddiad manwl ar ddarganfyddiadau'r ymgyrch ymgysylltu 'Amser Siarad'.
- Cyfarwyddiadur tystiolaeth ac ymchwil sy'n darparu manylion o ble y gellir dod o hyd i'r dystiolaeth a roddir o fewn yr asesiad yn fwy manwl os bydd gofyn.

Bu ymgymryd â'r asesiad hwn yn her sylweddol ac yn gyfle i ddatblygu ein sgiliau, ein gwybodaeth a'n cronfa dystiolaeth. Buom yn ymwybodol bod angen i ni ddatblygu dealltwriaeth well o lesiant yn y Fro a'r hyn mae'n ei olygu ar gyfer cymunedau gwahanol. Wrth ymgymryd â'r asesiad hwn buom yn awyddus i sicrhau bod ffocws clir ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac wrth galon ein gweithgarwch mae angen sicrhau:

***'y caiff anghenion y presennol eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion ei gilydd'***

Trwy gydol ein hymgysylltiad a chasglu a dadansoddi data rydym wedi cadw at yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Rydym wedi mabwysiadu'r pum ffordd o weithio a restrir yn y Ddeddf er mwyn sicrhau bod gennym asesiad cadarn; cydweithio, ymglymu, integreiddio, atal ac edrych i'r tymor hir. Mae'r asesiad yn darparu'r sail ar gyfer gwaith yn y dyfodol gan gynnwys datblygu ein hamcanion a'n cynllun ar gyfer llesiant. Rydym yn cydnabod bod angen rhagor o waith yn enwedig mewn perthynas â meddwl mewn ffordd fwy strwythuredig am ddyfodol tymor hir y Fro. Mae hon yn faes yr ydym yn gobeithio datblygu ymhellach ochr yn ochr â gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Thueddiadau'r Dyfodol ac adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol y Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a bydd angen cymryd i ystyriaeth gweithgarwch a phwysau rhanbarthol ehangach.

Mae ein defnydd o'r pum ffordd o weithio yn gynhenid o fewn ein hymagwedd at yr asesiad a darperir rhai enghreifftiau o'r ymagwedd isod

- Edrych i'r **tymor hir –** mae hyn yn amlwg mewn ystod o wybodaeth a gafodd ei ddadansoddi fel rhan o'n hasesiad gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, newid o ran poblogaeth a rhagamcaniadau iechyd cyhoeddus. Fel rhan o'r gwaith yr ymgymerwyd ag ef i bennu'r themâu allweddol a ddaw i'r amlwg o'r asesiad buom yn ymwybodol o'r angen i edrych i'r tymor hir. Cafodd pob un o'r meysydd y bydd y

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn canolbwyntio arnynt yn fwy manwl yn ddiweddarach yn y ddogfen hon (anghydraddoldebau, ein hamgylchedd, ymgysylltu a sicrhau bod plant yn cael dechreuad da mewn bywyd) eu dewis er mwyn cydnabod yr angen i gymryd camau gweithredu nawr er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn hefyd yn cysylltu â chanolbwyntio ar ymagweddau ataliol.

- Cymryd ymagwedd **integredig** – i gydnabod y cydberthnasau rhwng y nodau llesiant a phedair agwedd llesiant, penderfynodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i strwythuro'r asesiad o gwmpas pedair thema; ein hamgylchedd, byw bywyd iach ac actif, bod yn rhan o gymunedau diogel a chynhwysol a gwneud y mwyaf o gyfleoedd a chyrhaeddiad. Dewiswyd y themâu hyn er mwyn helpu pobl i lywio eu ffordd trwy'r asesiad ac achos y byddent yn galluogi'r Bwrdd Gwasanaethau i ystyried yr holl nodau ac agweddau ar lesiant mewn ffordd fwy cyfannol. Er enghraifft, er bod adran fwy manwl ar yr amgylchedd, ystyrir agweddau perthnasol drwy gydol yr asesiad. Ni chafodd unrhyw fater ei ystyried ar ei ben ei hun a chafodd gwybodaeth ei dadansoddi a'i thrafod er mwyn sicrhau ymagwedd integredig e.e. y berthynas rhwng cyfleoedd cyflogaeth a chael mynediad at ofal plant o safon sy'n fforddiadwy a sut mae hyn yn cyfrannu at lesiant economaidd a chymdeithasol. Byddwn yn parhau i adeiladu ar yr ymagwedd hon wrth i ni ddatblygu ein hasesiad ymhellach.

- **Cynnwys** y boblogaeth mewn penderfyniadau – bu ein hymgysylltiad trwy'r ymgyrch 'Amser Siarad' yn helaeth ac yn ffurfio dechrau sgwrs barhaus am lesiant yn y Fro. Rydym yn cydnabod bod angen rhagor o waith er mwyn cyrraedd grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd ac ymgysylltu â'r sector preifat a byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith yr ymgymerwyd ag ef eisoes a datblygu ffyrdd arloesol o ymgysylltu â'n boblogaeth leol. Bu mwy na 1,000 o drigolion a rhanddeiliaid eraill yn cymryd rhan yn y broses, gan ddarparu cyfle i siarad am fywyd yn y Fro a'r nodau llesiant cenedlaethol.

- Gweithio mewn ffordd **gydweithredol –** cafodd yr asesiad ei wneud gan gydweithio gydag ystod eang o bartneriaid ac yn benodol gydag ymglymiad y Grŵp Deallusrwydd Busnes amlasiantaethol. Mae pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyfrannu at y gwaith helaeth yr ymgymerwyd ag ef er mwyn cynhyrchu'r asesiad. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Phartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd a'r Fro er mwyn sicrhau y caiff yr asesiad o lesiant a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth eu hadlewyrchu yn y ddogfennaeth berthnasol ac hefyd rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar yr ymgyrch 'Amser Siarad'. Fel rhan o'n trafodaethau gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill buom yn awyddus i bwysleisio bod angen i'r asesiad a'r cynllun ar gyfer y dyfodol gael eu ffurfio gan farn ac anghenion ystod eang o bartïon. Un o'r camau cyntaf y cymerwyd gennym fel rhan o ddatblygu'r asesiad oedd cynnal gweithdy fis

Tachwedd 2015 er mwyn archwilio'r gwersi a ddysgwyd gan gynhyrchu asesiad o anghenion yr ymgymerwyd ag ef yn y gorffennol yn nhermau'r ymagwedd a gymerwyd a'r dogfennau a luniwyd. Bu'r trafodaethau hynny yn hanfodol i'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth lunio'r gyfres o ddogfennau ar gyfer yr asesiad o lesiant.

- Deall achosion gwreiddiol problemau a'u **hatal –** fel rhan o ddatblygu ein cynllun, byddwn yn ceisio ymchwilio ymhellach i achosion gwreiddiol rhai problemau penodol er mwyn deall yn well beth all y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei wneud ar y cyd er mwyn eu hatal. Mae'r asesiad eisoes yn amlygu nifer o feysydd lle y gellir ymgymryd â gwaith ataliol gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, profiadau plentyndod niweidiol ac ystod o faterion iechyd cyhoeddus cydgysylltiedig. Eto fel rhan o archwilio themâu y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi'u nodi bydd ffocws ar y camau ataliol y gallwn ymgymryd â nhw e.e. ynghylch newid yn yr hinsawdd ac anghydraddoldebau.

## Beth a Ddywedodd ein Hasesiad Wrthym - Cyflwr Llesiant ym Mro Morgannwg

Pan ystyrir y dystiolaeth a gyflwynir yn ein hasesiad ar lefel awdurdodau lleol, gwelir bod gan Fro Morgannwg a'i thrigolion lefel dda o lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Yn gyffredinol mae Bro Morgannwg yn gymharol gyfoethog ac mae llawer o'r trigolion yn mwynhau safon uchel o fyw mewn amgylchedd diogel a deniadol. Fodd bynnag, mae ardaloedd ym Mro Morgannwg sy'n dioddef o anfantais sylweddol, gan gynnwys diweithdra uchel, llai o ddisgwyliad oes iach, cyflawniad addysgol isel a lefelau uwch o droseddu.  Ar draws yr amryw ffactorau gwahanol hyn, yr un ardaloedd yn y Fro, yn enwedig ardal ddwyreiniol y Barri, sy'n dioddef yn gyson.

Mae'r bwlch anghydraddoldeb o ran disgwyliad oes iach yn achos pryder i'r BGC, a cheir cydberthynas rhwng yr ardaloedd gyda'r disgwyliad oes iach isaf a'r rhai mwyaf amddifad fel y nodwyd drwy MALlC 2014. Lleolir y rhain yn bennaf mewn ardaloedd yn rhan ddwyreiniol y Barri, fel Gibbonsdown, Castleland a Buttrills, ac yn yr ardaloedd hyn hefyd y ceir lefelau uwch o ordewdra, lefelau ysmygu uwch a chyfraddau uwch o farwolaethau alcohol-benodol.

Yn gyffredinol mae gan blant ifanc yn y Fro lefel dda o lesiant, er hyd yn oed pan yn ifanc, mae'r canlyniadau i blant yn yr un ardaloedd o'r Barri yn llai dymunol na rhai eu cyfoedion, gan ddangos pwysigrwydd profiadau yn y blynyddoedd cynnar ac iechyd a llesiant y fam cyn, yn ystod, ac ar ôl beichiogrwydd.

Gwelir cyfraddau troseddu isel fel agwedd gadarnhaol ar fywyd yn y Fro, er y gellir gweld gwahaniaethau rhwng ardaloedd gyda chyfraddau troseddu uwch mewn ardaloedd mwy amddifad. Er bod llawer o ardaloedd y Fro yn profi cyfraddau troseddu isel, pan geir digwyddiadau troseddol, ni ellir diystyru effeithiau digwyddiadau o'r fath ar lesiant y dioddefwyr.

Dangosodd canfyddiadau ein hymgyrch ymgysylltu bod pobl yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn am fywyd yn y Fro ac yn teimlo bod ganddynt rwydweithiau cryf o ffrindiau a chymdogion i ddibynnu arnynt. Yn gyffredinol mae pobl yn cymryd rhan ym mywyd y gymuned er bod y rhai yn yr ardaloedd mwyaf amddifad, y gellir awgrymu y dylem ymgysylltu mwy â hwy, yn llai tebygol o gymryd rhan, gyda lefelau is o wirfoddoli a graddfa is o bobl yn pleidleisio yn yr ardaloedd hyn. Roedd pobl yn y Fro hefyd yn llai tebygol o gytuno bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda na'r cyfartaledd ar draws Cymru. Mae digwyddiadau trosedd casineb wedi cynyddu'n gyson, ac nid yw effaith bellach ar gydlyniant cymunedol o ddigwyddiadau fel canlyniad refferendwm yr UE yn hysbys eto.

Mae aelodau'r BGC yn pryderu ynghylch fforddiadwyedd tai a'r angen i sicrhau nad yw pobl leol, yn enwedig pobl ifanc, yn cael eu prisio allan o'r cymunedau y maent wedi eu magu ynddynt. Maent yn cydnabod potensial tai anfoddhaol/ gorlawn ar ystod o ffactorau fel iechyd a chyrhaeddiad addysgol.

Yn gyffredinol mae Bro Morgannwg yn ardal sydd â lefelau da o gyrhaeddiad addysgol gydag incwm a chyfraddau cyflogaeth uwch na’r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae ardaloedd clir yn enwedig yn rhan Ddwyreiniol y Barri lle mae cyrhaeddiad addysgol yn is a gall hyn fod yn gysylltiedig ag incwm a lefelau cyflogaeth is.

Er mwyn sicrhau bod ein poblogaeth yn cael y cyfle gorau posibl i wneud y gorau o'u cyfleoedd, mae cael addysg dda yn hynod bwysig. Gweithreda addysg fel sylfaen allweddol ar gyfer llwyddiant economaidd nid yn unig unigolion, ond yr ardal yn ogystal. Mae addysg yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer cyflogaeth sy'n cynnig lefel uchel o amddiffyniad yn erbyn tlodi, ac yn enwedig yn erbyn tlodi dwfn a pharhaus (a hefyd mae’n cyfrannu'n uniongyrchol at lesiant). Mae’r un ardaloedd ym Mro Morgannwg yn profi normau wedi ymwreiddio’n ddwfn o gyflawniad addysgol is, cyfraddau cyflogaeth is ac incwm is. Fel yr ydym eisoes wedi archwilio, gall dylanwad ffactorau cymdeithasol-economaidd yn y blynyddoedd cynnar fod yn hanfodol wrth benderfynu ar gyfleoedd bywyd a chyfleoedd ein cenedlaethau'r dyfodol.

Gwelir mai un o’n prif heriau, ar ôl helpu ein trigolion i gael swydd, yw eu helpu i gynnal y swydd honno fel eu bod yn medru cael dyrchafiad o fewn y swydd, a helpu i sicrhau gwell dyfodol. Gellid ystyried lleoliad y Fro fel un o’i hasedau mwyaf o ran gwneud y mwyaf o lesiant economaidd ein trigolion a'r ardal. Mae gweithgarwch sylweddol o gwmpas Rhanbarth Prifddinas Caerdydd a symud i gam nesaf ei datblygiad. Mae’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn awyddus i weithio fel rhan o’r rhanbarth er mwyn sicrhau buddion lleol a rhanbarthol. Bydd nifer o brojectau seilwaith yn helpu i gefnogi twf economaidd yn y Fro a’r rhanbarth ehangach gan gynnwys trydanu prif lein y Great Western, Metro Rhanbarth Prifddinas Caerdydd a Pharth Menter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan. Roedd trafnidiaeth yn fater a godwyd yn ystod ein hymgysylltiad ac mae’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwybodol o'r angen i ystyried rhanbarth Prifddinas Caerdydd a'r cynllun metro wrth gynllunio unrhyw weithgareddau.

Gellir awgrymu bod y Fro mewn sefyllfa unigryw i helpu trigolion wneud y mwyaf o'u cyfleoedd. Mae gan y Fro gysylltiadau trafnidiaeth da i mewn i Gaerdydd, sy'n darparu cyfoeth o gyfleoedd economaidd a diwylliannol, ond mae hefyd yn ardal sydd ag amgylchedd naturiol cyfoethog fel un o'i hasedau mwyaf, y naturiol. Mae'r amgylchedd naturiol yn denu ymwelwyr, gan wella economi'r ardal ymhellach, ond mae hefyd yn darparu ystod o fuddion llesiant i drigolion. Drwy gydol ein hymgyrch ymgysylltu amlygwyd amgylchedd naturiol y Fro yn gyson fel un o’n hasedau mwyaf gyda thrigolion yn gwerthfawrogi'r effaith gadarnhaol a gaiff ar yr amgylchedd ar eu llesiant. Gellir ystyried defnydd cynaliadwy o'n hasedau naturiol yn hanfodol o ran sut rydym yn bwriadu gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r dadansoddiad SWOT canlynol yn nodi'r Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau cymharol ar gyfer Bro Morgannwg yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad.

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| - Amgylchedd naturiol amrywiol sy'n cael ei werthfawrogi gan drigolion ac yn cyfrannu at lefelau uchel o gyfranogiad mewn chwaraeon yn ogystal â buddion llesiant eraill<br>- Plant ifanc â lefelau uwch o ddatblygiad na'r cyfartaledd<br>- Lefelau gordewdra ar gyfer oedolion a phlant yn lleihau er bod hyn yn dal yn rhy uchel i ddiogelu iechyd cenedlaethau'r dyfodol<br>- Trigolion yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn am y Fro fel lle i fyw gyda'r amgylchedd naturiol a chymdogion da yr asedau mwyaf gwerthfawr<br>- Poblogaeth gymharol ymgysylltiedig, gyda nifer uwch na'r cyfartaledd o bobl yn pleidleisio a lefelau gwirfoddoli da<br>- Cyfraddau troseddu isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill o Gymru<br>- Lefelau uchel o gyrhaeddiad addysgol yn parhau i gynyddu gan gynnwys cynyddu lefelau cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim<br>- Lefelau isel o ymadawyr ysgol sy'n dod yn NEET<br>- Incwm uwch na'r cyfartaledd er bod gwahaniaethau mawr yn bodoli o fewn y sir<br>- Yn agos at Gaerdydd, gan gynnig amrywiaeth o gyfleoedd diwylliannol ac economaidd i drigolion<br>- Lefelau cynyddol o Dwristiaeth gydag effaith economaidd mawr ar y Fro | - Anghydraddoldebau clir rhwng y bobl 'gefnog' a'r bobl 'dlawd', sy'n aml yn cael eu cuddio gan ystadegau lefel awdurdod lleol<br>- Synnwyr is ar gyfartaledd o fod yn perthyn i'r ardal<br>- Y bwlch anghydraddoldeb mwyaf yn nisgwyliad oes iach yng Nghymru ar gyfer menywod<br>- Lefelau uchel o yfed alcohol yn enwedig gan bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig<br>- Er bod cyfraddau troseddu yn isel yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gall yr effaith ar lesiant fod yn fwy pan fo trosedd yn digwydd<br>- Mae'n bosibl na ellir dod o hyd i fannau gwyrdd bob tro yn y mannau lle mae eu hangen fwyaf er mwyn cael effaith gadarnhaol ar lesiant<br>- Lefelau is na'r cyfartaledd o dan goetir<br>- Efallai nad yw mannau gwyrdd i'w canfod bob amser yn yr ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf er mwyn cael effaith gadarnhaol ar lesiant<br>- Lefelau is na'r cyfartaledd o orchudd coetir<br>- Nid yw'r buddion amgylcheddol mawn yn cael eu gwireddu ac mae angen rheolaeth briodol i sicrhau ystorfa o garbon<br>- Ymgysylltu â grwpiau anoddach i'w cyrraedd yn dal yn profi'n her, a rhaid ystyried ffyrdd arloesol a newydd i gyrraedd y cyfan o'n poblogaeth<br>- Risg o ynysu'r rhai mewn ardaloedd gwledig sy'n ei chael yn anodd cael gafael ar wasanaethau<br>- Mae diffyg data mewn perthynas â nifer o grwpiau cydraddoldeb i ddeall anghenion ac asedau ein holl boblogaeth yn well |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| - Adeiladu ar lwyddiant mewn perthynas â lefelau uchel o ddatblygiad yn y blynyddoedd cynnar er mwyn codi cyfleoedd mewn bywyd<br>- Projectau adfywio yn parhau i gynyddu lefelau twristiaeth ac adeiladu brand y Fro<br>- Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o asedau naturiol arbennig i gynyddu'r cyfleoedd chwarae i blant<br>- O'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn y Fro, nifer uwch na'r cyfartaledd eisiau swydd<br>- Bydd amrywiaeth o brojectau seilwaith ac adfywio yn cefnogi ymhellach dwf economaidd yn y Fro a'r rhanbarth ehangach fel y Brifddinas-Ranbarth ac Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd<br>- Trigolion yn pryderu am effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn ei gydnabod fel mater difrifol a chyfrifoldeb ar y cyd bod rhaid i ni i gydweithio gyda'n gilydd i'w leihau<br>- Trigolion yn ddigidol weithredol a chymunedau a rhwydweithiau digidol newydd yn bodoli y gellir eu defnyddio i ymgysylltu â'r rhai sydd wedi bod yn anoddach i'w cyrraedd yn y gorffennol<br>- Parhau â'r gwaith a wneir trwy'r Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig o ran defnyddio agwedd 'ardal' i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned | - Mae trigolion y Fro yn bryderus am effeithiau economaidd hirdymor canlyniad refferendwm yr UE<br>- Nid yw effeithiau economaidd hirdymor canlyniad refferendwm yr UE yn hysbys; trigolion y Fro yn pryderu am hyn<br>- Newid yn yr hinsawdd ac effaith trychinebau naturiol<br>- Prisiau tai uchel a all ddod yn anfforddiadwy i bobl leol ac effaith hyn ar yr ymdeimlad o berthyn a chydlyniad cymunedol<br>- Effaith diwygiadau llesiant yn cynyddu'r rhwyg rhwng yr ardaloedd mwyaf amddifad a'r rhai lleiaf amddifad<br>- Effaith diwygiadau lles pellach yn cynyddu'r rhaniad rhwng y rhai yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifad<br>- Galw cynyddol am wasanaethau o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio mewn cyfnod o galedi ariannol<br>- Yn gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, mwy o risg o arwahanrwydd cymdeithasol oherwydd pryderon am gysylltiadau trafnidiaeth mewn cymunedau gwledig<br>- Mae'r cynnydd mwyaf a ragwelir mewn swyddi a fydd ar gael yn 2025 mewn gofal preswyl a bwytai/ diwydiannau gwasanaeth bwyd symudol sy'n draddodiadol yn swyddi cyflog is a chyflogaeth ran- |

| | |
|---|---|
| | amser<br>- Bygythiadau gan brisiau tanwydd yn codi a thrychinebau  naturiol sy’n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ar gymudwyr, mae’r gyfran fwyaf o drigolion yn cymudo mewn car; codwyd pryderon ynglŷn ag amodau ffordd gwael a dirywiad ansawdd yr awyr.<br>- Colli bioamrywiaeth trwy safle a amddiffynnir yn dirywio a datblygu tir gwyrdd neu llwyd<br>- Bygythiadau i gymudwyr o du prisiau tanwydd cynyddol a thrychinebau naturiol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd; mae’r gyfran uchaf o drigolion yn cymudo drwy car a mynegwyd pryderon dros gyflwr gwael y ffyrdd<br>- Effaith Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod ar gyfleoedd bywyd gyda lefelau uchel o ymddygiad niweidiol wedi’i grynhoi yn yr ardaloedd mwyaf amddifad |

## Mae ein taith yn Parhau... Beth fyddwn yn ei wneud nesaf?

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi nodi ystod o themâu eang er mwyn ystyried yn fwy manwl fel rhan o gam nesaf ymgymryd â'r asesiad o lesiant. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd, rydym wedi nodi, er mwyn sicrhau llesiant eu cenedlaethau yn y dyfodol, mae'n rhaid i ni weithio i:

- Sicrhau y caiff plant ifanc ddechreuad da yn eu bywydau ac atal Profiadau Plentyndod Niweidiol
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd, gan ganolbwyntio ar ystod o faterion sy'n fwy difrifol mewn rhai o'n cymunedau mwy difreintiedig. Mae hyn yn rhoi cyfle ar gyfer ymagwedd sy'n seiliedig ar le ac sy'n adeiladau ar rywfaint o waith presennol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Amddiffyn, gwella a gwerthfawrogi'r amgylchedd fel un o'n hasedau mwyaf er mwyn sicrhau y caiff adnoddau naturiol Cymru eu cynnal a'u cadw, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.
- Gwella ein hymgysylltiad gyda'n cymunedau, gan ddefnyddio rhwydweithiau presennol a bod yn fwy arloesol gan gynnwys hyrwyddo gwirfoddoli.

Cydnabyddir bod y rhain yn themâu gweddol eang a bydd rhaid i ni ystyried y ffordd orau o fynd ati i archwilio'r pynciau hyn yn fwy manwl fel rhan o gam 'ymateb' nesaf ein dadansoddiad a datblygiad o'n Cynllun Llesiant. Bydd y dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau cynharach yn ein helpu i edrych i mewn i bob un o'r themâu a nodwyd uchod yn fanwl er mwyn pennu'r camau gweithredu tymor byr, tymor canolig a thymor hir sydd eu hangen er mwyn gwella llesiant yn y Fro.

Nodwyd y themâu eang hyn trwy ystyried y darganfyddiadau a ddisgrifir yn yr asesiad ar gyfer Y Fro yn ei chyfanrwydd ac ar gyfer ardaloedd a grwpiau oedran penodol. Trafododd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y materion allweddol sy'n codi o'r asesiad a ddaeth â dadansoddiad o ddata allweddol ac ymchwil a gwybodaeth a gasglwyd trwy ein gweithgarwch ymgysylltu ynghyd. Roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn awyddus i nodi meysydd lle gallem ychwanegu gwerth ar y cyd ac ar ôl ystyried yr ystod eang o wybodaeth, yr her oedd ystyried:

- Ymhle gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ychwanegu gwerth a chael yr effaith fwyaf?
- Pa faterion sy'n gofyn am ragor o ddadansoddi er mwyn helpu i arwain ein hamcanion a'r cynllun?

Fel rhan o'r trafodaethau hyn, ystyriom hefyd yr asedau yn y Fro a'r strategaethau, partneriaethau a'r projectau sydd eisoes ar waith. Roedd hyn yn cynnwys Rhanbarth

Prifddinas Caerdydd, integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a chynlluniau allweddol megis Strategaeth Comisiynu'r Bwrdd Cynllunio Ardal a gwaith Safer Vale.

Wedi nodi ac ymgynghori ar y pedair prif thema hyn, yr her nesaf yw datblygu proses ar gyfer pennu’r camau a fydd yn gwneud y mwyaf o’n cyfraniad at y nodau cenedlaethol. Ymgymerir â'r gwaith hwn yng nghyd-destun ein cyfraniadau at ystod eang o weithgarwch arall. Bydd hyn yn sicrhau y caiff anghenion lleol eu bodloni trwy’r mecanwaith mwyaf priodol a bod integreiddio a chydweithio effeithiol ond nid dyblygu.

Mae’r tabl isod yn dangos sut bydd y themâu trawstoriadol a nodwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus trwy drafod ac ystyried pob agwedd ar yr asesiad yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Fel rhan o’r ymgynghoriad ar yr asesiad drafft, gofynnom i’r cyhoedd a’r rhanddeiliaid a oeddent yn cytuno â’r themâu sy’n dod i’r amlwg a bu cefnogaeth ar gyfer ffocysu sylw ar y pedwar maes a chydnabyddiaeth o’r cydgysylltiadau rhyngddynt.

| Thema drawstoriadol | Nodau Llesiant Cenedlaethol | Agwedd ar Lesiant | Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Llesiant |
|---|---|---|---|
| **Blynyddoedd Cynnar -** Sicrhau y caiff plant ifanc ddechreuad da yn eu bywydau ac atal Profiadau Plentyndod Niweidiol | • Diwylliant Bywiog a'r Iaith Gymraeg yn ffynnu<br>• Cymunedau Cydlynol<br>• Yn fwy cyfartal<br>• Yn fwy iach | • Cymdeithasol<br>• Economaidd<br>• Diwylliannol | • Cael Dyfodol Iach ac Actif<br>• Bod yn rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol<br>• Gwneud y Mwyaf o Gyfleoedd a Chyrhaeddiad |
| **Ymgysylltu** - Gwella ein hymgysylltiad gyda'n cymunedau, gan ddefnyddio rhwydweithiau presennol a bod yn fwy arloesol gan gynnwys hyrwyddo gwirfoddoli. | • Diwylliant Bywiog a'r Iaith Gymraeg yn ffynnu<br>• Cymunedau Cydlynol<br>• Yn fwy cyfartal | • Cymdeithasol<br>• Economaidd<br>• Diwylliannol<br>• Amgylcheddol | • Cael Dyfodol Iach ac Actif<br>• Bod yn rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol |
| **Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau -** yn gysylltiedig ag amddifadedd, gan ganolbwyntio ar ystod o faterion sy'n fwy difrifol mewn rhai o'n cymunedau mwy amddifad. | • Yn fwy iach<br>• Yn ffyniannus<br>• Cymunedau Cydlynol<br>• Yn fwy cyfartal | • Cymdeithasol<br>• Economaidd<br>• Diwylliannol<br>• Amgylcheddol | • Cael Dyfodol Iach ac Actif<br>• Bod yn rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol<br>• Gwneud y Mwyaf o Gyfleoedd a Chyrhaeddiad<br>• Ein Hamgylchedd |
| **Amddiffyn, gwella a gwerthfawrogi'r amgylchedd -** fel un o'n hasedau mwyaf er mwyn sicrhau y caiff adnoddau naturiol Cymru eu cynnal a'u cadw, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol. | • Diwylliant Bywiog a'r Iaith Gymraeg yn ffynnu<br>• Yn fwy iach<br>• Yn wydn<br>• Yn ffyniannus<br>• Yn fyd-eang gyfrifol | • Cymdeithasol<br>• Economaidd<br>• Diwylliannol<br>• Amgylcheddol | • Cael Dyfodol Iach ac Actif<br>• Gwneud y Mwyaf o Gyfleoedd a Chyrhaeddiad<br>• Ein Hamgylchedd |

Bydd ein camau nesaf nawr yn golygu parhau i wella a datblygu'r ystod o gynhyrchion sy'n gynwysiedig yn ein hasesiad o lesiant. Bydd hyn yn cynnwys gwella ein cronfa wybodaeth gan ychwanegu rhagor o dystiolaeth ble bo'n bosib. Cafodd y meysydd hyn eu hamlygu o fewn pob adran yr asesiad. Yn ogystal, byddwn yn gweithio i ddatblygu ein dadansoddiad o 'ymateb' yn y meysydd a nodwyd uchod a fydd yn cynnwys ymagwedd fwy manwl ac arfarnol at ddadansoddi cyflwr llesiant ym Mro Morgannwg.

Bydd ein cronfa tystiolaeth yn parhau i gynyddu fel y caiff gwaith i gynhyrchu adnoddau gwerthfawr megis Adroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a Datganiadau

Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru eu cynhyrchu. Bydd y Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig hefyd yn llunio Cynllun Ardal Rhanbarth Caerdydd a'r Fro fel ymateb i ddarganfyddiadau'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Diben cynlluniau ardal yw darparu disgrifiad o ystod a lefel gwasanaethau y cynigir y cânt eu darparu, neu eu trefnu, er mwyn ymateb i'r anghenion gofal a chymorth; ac anghenion cymorth gofalwyr , a nodwyd yn adroddiad yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Bydd y Cynllun Ardal yn cyfrannu tuag at fynd i'r afael â nifer o'r materion a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant hwn a chaiff ein Cynllun Llesiant ei ddatblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Ardal er mwyn osgoi dyblygu.

Yn ogystal, bydd angen i ni ystyried sut mae sicrhau nad ymarfer unwaith ac am byth yw'r asesiad llesiant a'i fod yn parhau fel proses gyfredol fel y bydd adnodd dynamig i sicrhau bod cronfa tystiolaeth ar gael o hyd.

Yn ogystal bydd rhaid i ni barhau i ymgysylltu â'n poblogaeth a sicrhau bod deialog barhaus yn datblygu gyda'n cymunedau trwy'r ymgyrch Amser Siarad. Byddwn yn ystyried ffyrdd mwy arloesol o wneud hyn er mwyn osgoi lludded o ran ymgynghori a chyrraedd trawstoriad ehangach o'n poblogaeth gan gynnwys y rhai yr ystyriwyd fel rhai anos eu cyrraedd yn flaenorol.

Wrth wneud hyn, bydd yr asesiad llesiant yn ffurfio cronfa dystiolaeth gadarn y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddatblygu ei Gynllun Llesiant ohono, gan adnabod camau ar y cyd y gellir eu cyflawni er mwyn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol a gwneud y mwyaf o lesiant cymunedau ym Mro Morgannwg.

Cyflwynir crynodeb o'r darganfyddiadau allweddol o ar draws yr asesiad yn yr adrannau canlynol. Cyflwynir y darganfyddiadau hyn o dan bedwar pennawd ein hadroddiadau tystiolaeth ond cawsant eu hystyried mewn ffordd integredig a thrawstoriadol. Adlewyrchir hyn yn y pedwar maes a nodwyd ar gyfer gwaith pellach sydd, fel y disgrifir yn y tabl uchod, yn ymwneud ag ystod o faterion a phob agwedd ar lesiant

# Crynodeb o’r Asesiad

## Ein Poblogaeth

Yn ôl amcangyfrifon canol-blwyddyn 2015 yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011, roedd poblogaeth Bro Morgannwg ychydig o dan 128,000. O'r rhain, roedd tua 51% yn fenywod a 49% yn ddynion.

Mae gan y Fro broffil oedran poblogaeth tebyg i gyfartaledd Cymru, gyda 18.5% o'r boblogaeth rhwng 0-15 oed, 61.1% rhwng 16-64 oed a 20.4% yn 65+ oed. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn amcangyfrif erbyn 2036 y bydd y boblogaeth 0-15 oed a 16-64 oed yn gostwng. Mae gan y Fro boblogaeth sy'n heneiddio, a rhagwelir y bydd nifer y bobl yn y grŵp 65+ oed yn cynyddu, ac y bydd yn uwch na chyfartaledd Cymru erbyn 2036. Amcangyfrifa Daffodil Cymru[1] y bydd cynnydd o 130% yn y nifer o bobl ym Mro Morgannwg sy’n 85+ oed erbyn 2035, a rhagwelir y bydd nifer y dynion 85+ oed yn cynyddu o 180% a nifer y menywod o 104%.

Ar hyn o bryd, mae canran poblogaeth y Fro sy’n adrodd am gyfyngiadau gweithgaredd oherwydd anabledd yn un o'r rhai isaf yng Nghymru.

Dywedodd 2.8% o boblogaeth y Fro eu bod o gefndir nad yw’n Wyn, a nododd 6% o'r boblogaeth gyffredinol eu bod wedi eu geni y tu allan i'r DU. Roedd gan y Fro gydbwysedd mewnfudo negyddol yn 2015; cyfeiria mewnfudo at bobl sy'n symud rhwng gwledydd y DU. Yn y Fro, symudodd mwy o bobl i wledydd eraill y DU nag a symudodd i'r ardal o wledydd y DU.

O ran yr iaith Gymraeg, dim ond 3% o drigolion sy’n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, ac nid yw 87% yn gallu siarad unrhyw Gymraeg. Roedd gan y 10% sy'n weddill raddau amrywiol o alluoedd siarad Cymraeg. O blith y gyfran fechan o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg, adroddodd 25% eu bod yn defnyddio’r Gymraeg yn ddyddiol.

Mae cymuned sylweddol o’r Lluoedd Arfog o fewn Bro Morgannwg a dangosodd data Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 1143 aelodau’r Lluoedd Arfog yn y Fro. Mae hyn yn 16.6% o gyfanswm y boblogaeth yn y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Yn ogystal gwelodd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth fel sy’n ofynnol gan WAsanaethau Cymdeithasol a’r Ddeddf Llesinat fod tua 11.96 o gyn-aelodau’r Lluoedd Arfog ar gyfer pob 1000 o breswylwyr ym Mro Morgannwg, uwchlaw cyfartaledd Cymru sef 6.24.

[1] http://www.daffodilcymru.org.uk/ (Saesneg yn Unig)

## Ein Cymunedau

At ddibenion yr Asesiad Llesiant hwn ac i'n cynorthwyo i gael gwell dealltwriaeth o lesiant ein cymunedau o fewn Bro Morgannwg, ystyriwyd yr ardal gyfan a hefyd rhannwyd y sir yn dair ardal gymunedol - Barri, Dwyrain y Fro a Gorllewin y Fro. Mae'r ardaloedd hyn yn adlewyrchu sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu ar hyn o bryd gan sefydliadau partner o fewn y BGC.

| **Gorllewin y Fro** | **Y Barri** | **Dwyrain y Fro** |
|---|---|---|
| Saint-y-brid | Dyfan | Dinas Powys |
| Llandŵ/Ewenni | Gibbonsdown | Sili |
| Llanilltud Fawr | Y Cwrt | Llandochau |
| Y Bont-faen | Cadoc | Cornerswell |
| Llanbedr-y-fro | Illtyd | St. Augustine’s |
| Sain Tathan | Buttrills | Stanwell |
| Y Rhws | Baruc | Plymouth |
| Gwenfô | Castleland | |

Cynhyrchwyd proffiliau cymunedol ar gyfer pob un o'r cymunedau hyn a'r Fro yn ei chyfanrwydd i gyd-fynd â'r asesiad. Mae'r proffiliau yn rhoi gwybodaeth ynglŷn ag ystadegau allweddol ar gyfer yr ardal a'r ystod o asedau, gwasanaethau, projectau a strategaethau sy'n bodoli o fewn y Fro.

Ymgymerir â rhagor o waith i wella proffiliau’r gymuned wrth gynnwys darganfyddiadau allweddol yr asesiad ar gyfer pob ardal er mwyn rhoi darlun cliriach o lesiant ym mhob un o’r tair cymuned a lle bo’n briodol mewn ardal ddaearyddol llai.  Bydd hyn yn adeilad ar waith yr ymgymerwyd ag ef hyd yn hyn i roi adnodd gwerthfawr ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill.

## Ein Hamgylchedd

Un o asedau mwyaf y Fro yw'r **amgylchedd naturiol** a thrwy gydol ein hymgyrch ymgysylltu gwelwyd yn glir bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol i lesiant ein trigolion. Mae'r amgylchedd yn sail i bob agwedd o fywyd ac mae'n hanfodol i lesiant ein trigolion a'r ardal.

Fel yr amlinellwyd, er mwyn asesu llesiant o fewn Bro Morgannwg, rhannwyd canfyddiadau ein hasesiad yn dri maes allweddol ar gyfer llesiant yn awr ac yn y dyfodol – **Cael Dyfodol Iach a Gweithgar**, **Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol** ac **Uchafu Cyfleoedd a Chyrhaeddiad**.

Mae'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo yn rhan hanfodol o bob un o'r tair agwedd hon ar lesiant, a thrwy gydol yr adrannau hyn o'r asesiad, mae'n amlwg na ellir diystyru'r cysylltiadau â'r amgylchedd. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn gwerthfawrogi a gwarchod yr amgylchedd er mwyn sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Gweler isod ystod o wybodaeth allweddol mewn perthynas â'n hamgylchedd.

### Asedau

- 27 safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), 1 Ardal Gwarchodaeth Arbennig, 3 Ardal Cadwraeth Arbennig, ac 1 safle RAMSAR (2013)
- 740 o adeiladau rhestredig, dros 100 o Henebion Rhestredig, 39 o Ardaloedd Cadwraeth, 18 ardal wedi'u cynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau o Barciau a Gerddi Hanesyddol a 2 ardal ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. (2013)
- Mae ein hafonydd, llynnoedd, aberoedd, arfordir a thraethau yn rhoi manteision naturiol pwysig i ni, llawer ohonynt yn cyfrannu at lesiant cymunedau lleol a'r boblogaeth ehangach. Mae'r manteision naturiol yn cynnwys mynediad at ddŵr yfed, afonydd a moroedd glân ar gyfer hamdden ac ymlacio.
- Ceir amrywiaeth eang o gynefinoedd yn y Fro. Ceir sawl SoDdGA glaswelltir yn y Fro sy'n bwysig yn genedlaethol ac ardaloedd o amrywiaeth biolegol uchel.
- Gall mannau gwyrdd a choed gyfrannu at lesiant corfforol a meddyliol, ond nid ydynt bob amser wedi'u lleoli yn agos at y bobl sydd eu hangen fwyaf.
- Gall ein profiad a'n rhyngweithio â'r amgylchedd gael effaith bositif ar ein hiechyd a'n llesiant.
- Mae Cynllun Datblygu Lleol Adnau 2011 – 2026 Bro Morgannwg yn amlinellu'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau ar gyfer rheoli twf a datblygiad ym Mro Morgannwg tra'n gwarchod a gwella'r amgylchedd.

## Darparwr Gwasanaethau

- Mae arfordiroedd a moroedd yn darparu swyddi, bwyd a chyfleoedd ar gyfer hamdden, a all ddod ag ystod o fanteision iechyd, cynhyrchu ynni, a mwynhad o fywyd gwyllt, y dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol yn eu sgil.
- Mae anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill a'u cynefinoedd yn chwarae llawer o rolau swyddogaethol mewn ecosystemau a'r prosesau sy'n sail i gynhyrchu bwyd, dŵr glân a peillio.
- Gall coetiroedd a choed helpu i reoleiddio ein hinsawdd, darparu incwm a swyddi, storio carbon, cyfrannu at leihau risg llifogydd a llif afon isel, diogelu priddoedd, gwella ansawdd aer, lleihau sŵn a rheoleiddio plâu a chlefydau. Dim ond 8.2% o'r sir a orchuddir gan goed, sydd yn is na chyfartaledd Cymru o 14%.
- Gall hamdden awyr agored wneud cyfraniad sylweddol at iechyd corfforol a llesiant meddyliol.
- Mae mynediad at gefn gwlad, dŵr a mannau gwyrdd yn agos at lle mae pobl yn byw yn gynyddol bwysig, gan ddarparu manteision iechyd, economaidd a chymdeithasol.

## Heriau

- Mae naw o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) y Fro yn y 10% o ACEHI mwyaf amddifad ym mharth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Hwn yw'r parth lle mae gan y Fro y mwyaf o ACEHI yn y 10% o ACEHI mwyaf amddifad yng Nghymru.
- Cynyddodd allyriadau carbon rhwng 2009 a 2013. Y dunelledd gyfartalog o $CO_2$ fesul preswylydd yn 2013 oedd 10.1 tunnell o'i gymharu â 9.6 i Gymru.
- Roedd y tunnellau o $CO^2$ ar gyfartaledd fesul preswylydd yn 2014 oedd 9.7 tunnell o'i gymharu â 9.3 ar gyfer Cymru
- Mae angen lleihau ein hôl troed ecolegol fesul person ac fel sefydliadau.
- Llifogydd yw'r math mwyaf cyffredin o drychineb naturiol a'r cymunedau sydd mewn perygl mwyaf o lifogydd ym Mro Morgannwg yw'r Bont-faen, Dinas Powys a rhannau o'r Barri. Hefyd mae Llanilltud Fawr mewn perygl.
- Mae Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd y DU 2017 yn tynnu sylw at nifer o risgiau allweddol i Gymru gan gynnwys gostyngiadau mewn llif afonydd ac argaeledd dŵr yn ystod yr haf, gan effeithio ar gyflenwadau dŵr a'r amgylchedd naturiol. Mae risgiau eraill yn cynnwys newid mewn esblygiad arfordirol, cynnydd yn y risg o blâu a chlefydau a newid mewn cyflwr pridd a bioamrywiaeth.
- Gall cynnydd posibl yn lefel y môr o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd fod yn fygythiad i'n hamgylchedd arfordirol yn ogystal â threfi a phentrefi ar yr arfordir.
- Mae ansawdd yr aer yn cydymffurfio â'r rheoliadau i ddiogelu iechyd pobl ac yn bodloni'r amcanion ansawdd aer perthnasol, ond parheir i'w adolygu, fodd bynnag bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro oherwydd bod gan y Fro un o'r lefelau uchaf o lygredd awyr gwneud yng Nghymru ac mae'n uwch na'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru, yr Alban a gogledd Iwerddon. Amcangyfrif bod hyn yn cyfrannu at tua 50 o farwolaethau bob blwyddyn yn y sir.

## Beth a ddywedasoch chi wrthym a’r dasg o’n blaenau

- Amlygodd yr ymgysylltu a wnaed mewn digwyddiadau bod yr amgylchedd lleol yn bwysig i drigolion, sy'n gwerthfawrogi agosrwydd a mynediad at gefn gwlad/glan y môr a mannau gwyrdd.
- Yn ôl yr arolwg Amser Siarad nid yw mwyafrif yr ymatebwyr yn credu y bydd eu llesiant amgylcheddol yn gwella dros y pum mlynedd nesaf.
- Amlygodd yr ymgysylltu a wnaed mewn digwyddiadau bod materion sbwriel/glendid a baw cŵn yn broblem i nifer o bobl yn y Fro.
- Mae ein hamgylchedd yn ased a bydd rhaid I’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weithio gyda’r rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn cydnabod ac yn parchu e werth a’i gyfraniad at wasanaethau gwahanol.
- Mae trigolion yn bryderus am newid yn yr hinsawdd ac yn credu bod mynd i’r afael ag ef yn gyfrifoldeb cyfunol ar sefydliadau ac unigolion, bydd angen I’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weithio mewn partneriaeth er mwyn ymateb i’r risgiau sy’n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.
- Mae ein hamgylchedd yn ased ond sut ydym yn sicrhau ein bod yn cydnabod ac yn parchu ei werth a’i gyfraniad at wahanol wasanaethau?
- Mae trigolion yn pryderu am newid yn yr hinsawdd ac yn credu ei fod yn gyfrifoldeb i sefydliadau ac unigolion; sut ddylai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymateb i risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd?

## Cael Dyfodol Iach a Gweithgar

Mae adran hon yr asesiad yn canolbwyntio ar gael dechreuad iach mewn bywyd, ymddygiad iach a gofal a chymorth. Trwy sicrhau bod trigolion Bro Morgannwg yn cael dyfodol iach ac actif bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud y mwyaf o'n cyfraniad tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol: Cymru Fwy Cyfartal, Cymru Iachach a Chymru Wydn.

Amlinellir isod ystod o'n canfyddiadau allweddol o'r adran hon o'n hasesiad.

### Disgwyliad Oes a Chyfraddau Marwolaethau

- Er bod y Fro yn uchel o ran disgwyliad oes cyffredinol (4ydd uchaf yng Nghymru ar gyfer dynion a 5ed uchaf ar gyfer menywod), nid yw'r Fro ar safle uchel pan ystyrir disgwyliad oes iach . Ar gyfer disgwyliad oes iach ymysg dynion mae'r Fro yn 9fed allan o 22 ardal awdurdod lleol, ac yn achos menywod, mae'r Fro yn gydradd 8fed ar gyfer y cyfnod 2010-14.
- Wrth ystyried disgwyliad oes, gellir gweld y gwahaniaethau mwyaf rhwng pumedau amddifadedd yn hytrach na rhyw, yn enwedig o ran disgwyliad oes iach. Gall dynion yn ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y Fro ddisgwyl byw ar gyfartaledd 20.9 o flynyddoedd mewn iechyd da o'u cymharu â'r rhai yn yr ACEHI mwyaf amddifad.
- Mae'r gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach rhwng ardaloedd y Fro hyd yn oed yn fwy amlwg ar gyfer menywod, gyda rhai yn yr ACEHI lleiaf amddifad yn cael 23.4 o flynyddoedd o fywyd mewn iechyd da o'u cymharu â'r rhai yn yr ACEHI mwyaf amddifad.
- Y bwlch anghydraddoldeb hwn o ran disgwyliad oes iach ar gyfer menywod yn y cyfnod 2010-14 yw'r mwyaf a welwyd ledled Cymru, sy'n achos pryder ac mae angen ei ddadansoddi ymhellach.
- Yn gyffredinol mae gan y Fro boblogaeth hŷn gymharol iach.
- Yn ystadegol mae gan y Fro gyfradd marwolaethau sylweddol is na chyfartaledd Cymru i bob oedran.
- Mae'r gyfradd marwolaethau i'r rhan dan 75 oed yn uwch yn ardal y Barri o gymharu ag ardaloedd eraill yn y Fro.

## Cychwyn Iach

- Mae plant ifanc ar draws Bro Morgannwg yn dangos lefelau da o ddatblygiad mewn perthynas ag ymddygiadau iechyd.
- Mae canran y merched sy'n adrodd eu bod yn yfed alcohol ac yn ysmygu yn ystod beichiogrwydd ar draws Caerdydd a'r Fro yn isel o'i gymharu ag ardaloedd byrddau iechyd eraill. Er bod nifer y merched sy'n adrodd defnyddio sylweddau eraill yn ystod beichiogrwydd hefyd yn isel, roedd y ganran sy'n adrodd eu bod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio’r sylweddau hyn yn ystod beichiogrwydd yn 0% yn 2014/15. Byddai angen dadansoddiad pellach i benderfynu a yw hyn yn cael ei briodoli i ddulliau casglu data neu beidio.
- Yn 2015/16 y ganran o blant Cyfnod Sylfaen a gyrhaeddodd y canlyniad datblygiad disgwyliedig neu uwch ar draws pob maes o ddatblygiad oedd yr uchaf ar draws Ardal Consortiwm Canolbarth y De, ac roedd yr 2il uchaf yng Nghymru, y tu ôl i Sir Fynwy.

## Camddefnyddio Sylweddau ac Ysmygu

- Mae cyfradd yr oedolion sy’n yfed alcohol ar draws ardal BIP Caerdydd a'r Fro yn uwch na'r lefelau a welwyd mewn mannau eraill yng Nghymru. Mae lefelau yfed mewn pyliau ac yfed yn drwm iawn ar eu huchaf yn ardaloedd mwy cefnog y Fro yn enwedig ardaloedd gwledig y Fro Orllewinol.
- Mae’r ganran o oedolion sy’n adrodd eu bod yn ysmygu ym Mro Morgannwg yn un o’r cyfraddau isaf yng Nghymru, fodd bynnag, yn dilyn cyfnod o’r ganran hon yn lleihau, mae’r data diweddaraf yn dangos bod cyfraddau ysmygu wedi gwastadu yn y Fro. Mae lefelau ysmygu yn llawer uwch yn Nwyrain y Barri nag ardaloedd eraill o'r Fro; mae’r ACEHI hyn yn cyfateb i'r rhai a ystyrir y mwyaf amddifad yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.
- Y 3 sylwedd uchaf mwyaf cyffredin sy’n parhau i gael eu defnyddio yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yw alcohol, canabis a heroin, gydag alcohol y sylwedd mwyaf cyffredin o bell ffordd.
- Mae’r nifer o ddynion a atgyfeirir i’r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn gyson uwch na’r nifer o fenywod.
- Cynyddodd y marwolaethau sy’n gysylltiedig â chyffuriau ym Mro Morgannwg, ac mae ymdrin â hyn yn flaenoriaeth allweddol i’r Bwrdd Cynllunio Ardal.

## Gordewdra/Bwyta'n Iach

- Yn gyffredinol, mae'r lefel o ordewdra ym Mro Morgannwg yn gostwng i oedolion a phlant.
- Fodd bynnag gellir gweld anghydraddoldebau ym Mro Morgannwg gyda nifer uwch o oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew i'w canfod yn yr ACEHI mwyaf amddifad o amgylch y Barri.
- Gellir gweld gwahaniaethau hefyd ar draws grwpiau oedran a phetai'r sefyllfa bresennol yn parhau, erbyn 2025 bydd 77% o ddynion 45-64 oed yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg dros eu pwysau neu'n ordew.
- Mae'r ganran o oedolion ym Mro Morgannwg sy'n bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau yn ddyddiol ym Mro Morgannwg ychydig yn is na chyfartaledd Cymru ond mae wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar.
- Mae canran y plant oed derbyn (4 i 5 oed) ym Mro Morgannwg sydd dros eu pwysau neu'n ordew wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, a hon yw'r gyfradd isaf yng Nghymru. Eto mae lefelau uwch o blant yn ardal y Barri sydd dros eu pwysau neu'n ordew o'i gymharu ag ardaloedd eraill yn y Fro.
- Mae yfed diodydd pefriog llawn siwgr gan blant yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn uwch nag mewn ardaloedd eraill.
- Dywedodd pobl ifanc fod prisiau bwyd yn uchel, a all effeithio ar eu gallu i wneud dewisiadau iach; ni wnaeth ymatebwyr hŷn godi'r mater hwn.

## Gweithgaredd Corfforol a

- Mae gan y Fro boblogaeth egnïol gyda chanran uwch na'r cyfartaledd o oedolion wedi 'gwirioni ar chwaraeon' sy'n cael ei ddiffinio fel cymryd rhan dair gwaith neu fwy yr wythnos.
- Amser yw'r rhwystr mwyaf i fwy o gyfranogiad mewn chwaraeon gan oedolion a phlant
- Ceir cysylltiad llai amlwg rhwng amddifadedd a lefelau is o weithgarwch corfforol tra bo cyswllt llawer cryfach gydag ymddygiadau iechyd eraill megis lefelau uwch o ordewdra.
- Mae'r amgylchedd naturiol yn chwarae rhan bwysig wrth gadw trigolion y Fro yn weithgar yn enwedig mewn perthynas â Gorllewin y Fro lle mae oedolion yn debygol o ddefnyddio eu hamgylchedd naturiol i gadw'n gorfforol weithgar yn hytrach nag ymweld â chanolfan hamdden neu gampfa.
- Mae mwy o blant yn y Fro wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.
- Y defnydd o asedau naturiol a chynyddu dealltwriaeth cymunedau o'r angen i ehangu'r ardaloedd lle mae pobl yn gweld y gall plant chwarae a beth mae 'chwarae' yn ei olygu a bod hyn yn ffurfio rhan hanfodol o gynllunio darpariaeth yn y dyfodol.
- Roedd cael mwy o gyfleusterau a gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn fater cyffredin yn ystod yr ymgysylltu.

## Beth a ddywedasoch wrthym a'r dasg o'n blaenau

- Y ffactorau pwysicaf a oedd yn cyfrannu at fod â llesiant corfforol a meddyliol da yn ôl trigolion oedd yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol a mynediad at wasanaethau iechyd.
- Nododd nifer o denantiaid tai cymdeithasol yn y Barri bod gwasanaethau iechyd meddwl yn bwysig i helpu cynnal lefelau da o lesiant.
- Ystyrir mynediad da i wasanaethau gofal iechyd a threfnu apwyntiadau meddyg yn un o'r ffactorau pwysicaf i gadw'n heini ac iach, gyda thrigolion yn dweud y byddent yn hoffi cael gwell mynediad at eu meddyg teulu.
- Bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weithio mewn partneriaeth â'r gymuned a'r rhanddeiliaid er mwyn mynd i'r afael â'r llu o faterion sy'n cyfrannu atom yn cael dyfodol iach ac actif.
- Bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus benderfynu a ddylem roi sylw arbennig i grŵp oedran, cymuned neu ardal benodol ym Mro Morgannwg.

## Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol

Mae adran hon yr asesiad yn ffocsyu ar dai, diogelwch cymunedol, gwirfoddoli a chymunedau gwydn. Trwy sicrhau bod trigolion Bro Morgannwg yn rhan o gymunedau diogelwch a chynhwysol, bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro yn gwneud y mwyaf o ran cyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol: Cymru Ffyniannus, Cymru mwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynol, Cymru o Ddiwylliant Egnïol a'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu, Cymru Iachach a Chymru Gyfrifol yn Fyd-eang.

Amlinellir isod ystod o'n canfyddiadau allweddol o'r adran hon o'n hasesiad.

### Tai

- Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd, 72.5%, yn berchen ar eu cartrefi eu hunain, ac mae canran yr aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain yn y Fro yn un o'r rhai uchaf yng Nghymru. Ond pa mor fforddiadwy yw tai yn y Fro i bobl ifanc?
- Mae nifer yr aelwydydd sy'n rhentu'n breifat wedi mwy na dyblu o 4,033 o aelwydydd yn 1991 i 8,379 yn 2011.
- Ym Mro Morgannwg, y ganran o gartrefi gorlawn yw 3.86%, sy'n is na Chymru ar 5.53%. Fodd bynnag, ar draws Bro Morgannwg mae ystod eang rhwng yr ACEHI isaf (0.0% yn 'Illtyd 1') a'r uchaf (12.2% yn 'Gibbonsdown 2').
- Bu nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt gan y cymhorthdal ystafell sbâr yn gostwng yn raddol ers i'r diwygiadau gael eu cyflwyno gyntaf yn 2012. Fodd bynnag, mae angen mwy o wybodaeth i ddeall y rhesymau dros hyn.
- Dangosodd canfyddiadau'r arolwg Amser Siarad bod y rhan fwyaf o drigolion naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar ansawdd eu cartrefi.

### Ymgysylltiad Cymunedol

- Dangosodd yr arolwg Amser Siarad bod cael llais mewn penderfyniadau yn bwysig iawn i bobl y Fro, a all esbonio pam fod y nifer sy'n pleidleisio'n uchel, ond er gwaethaf hyn, ychydig o bobl a gredai y gallant ddylanwadu mewn gwirionedd ar benderfyniadau.
- Mae'r lefel o ymgysylltiad gwleidyddol yn amrywio'n fawr ym Mro Morgannwg.
- Roedd pobl yn gwerthfawrogi cael cymdogion da a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gwahanol grwpiau.
- Cytunai 73% o drigolion y Fro bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cael ymlaen yn dda gyda'i gilydd, yn is na chyfartaledd Cymru o 79.6% a'r 3ydd isaf yng Nghymru.
- Mae'r ganran o bobl sy'n dweud eu bod yn gwirfoddoli yn ffurfiol ym Mro Morgannwg yn fras yn unol â chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, wrth ystyried y rhai sy'n dweud eu bod yn gwirfoddoli yn anffurfiol, mae gan y Fro un o'r canrannau uchaf ar draws Cymru.
- Roedd trigolion yng Ngorllewin y Fro yn fwy tebygol o wirfoddoli, yna trigolion Dwyrain y Fro.
- Roedd oed ac arwahanrwydd cymdeithasol yn bryderon a fynegwyd ynghylch lles cymdeithasol yn y dyfodol yn yr ymatebion i'r arolwg, ac erbyn 2035 rhagwelir y bydd oddeutu dwbl y nifer o fenywod 65+ oed yn byw eu hunain o gymharu â dynion.

## Diogelwch Cymunedol

- Canran y plant mewn angen lle roedd cam-drin domestig yn ffactor rhianta ym Mro Morgannwg oedd yr uchaf yng Nghymru (51%) ym Mawrth 2015 a byddai angen rhagor o ymchwil i ddeall y rhesymau dros hyn. (Cyfrifiad Plant mewn Angen, Llywodraeth Cymru.)
- Mae'r gyfradd gyffredinol o droseddau yn y Fro wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru. Amlygwyd diffyg troseddu fel un o'r pethau cadarnhaol yn ystod yr ymgysylltu, er bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei godi fel problem.
- Mae 7 ACEHI ym Mro Morgannwg yn cael eu gosod yn y 10% ACEHI mwyaf amddifad yng Nghymru yn ôl Parth Diogelwch Cymunedol MALlC 2014.
- Yn ardal y Barri, nodwyd mai yn Castleland 2G y gwelwyd y cyfraddau uchaf o droseddau yn y Fro ar draws nifer o ddangosyddion, gan gynnwys cyfraddau troseddau treisgar, difrod troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r ardal hon yn cynnwys Heol Holton ac yma ceir llawer o siopau, caffis, canolfan hamdden Y Barri, Swyddfeydd Dinesig y Cyngor ac ardaloedd o dir agored.
- Cynyddodd y gyfradd o drais yn erbyn y person yn y blynyddoedd diwethaf yn y Fro er y gwelwyd tuedd debyg hefyd mewn ardaloedd eraill o Gymru. Gwelwyd cynnydd mawr yn arbennig mewn ardaloedd y Barri fel Dyfan (cynnydd o 72% yn 2014/15 o'i gymharu â 2013/14). Yn ogystal, cafwyd cynnydd mewn troseddau meddiant o arfau yn yr ardal hon a rhai rhannau eraill o'r Barri, er bod y niferoedd cyffredinol yn aros yn fach.
- Bu digwyddiadau trosedd casineb yn cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf gyda chynnydd hefyd yn y gyfradd drosi rhwng y digwyddiadau a'r rhai sy'n cael eu dosbarthu fel troseddau.
- Cynyddodd cyfanswm o ddigwyddiadau tân ychydig yn y Fro rhwng 2014/15 a 2015/16.
- Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i gwestiynau diogelwch cymunedol yn yr arolwg llesiant yn gadarnhaol iawn.

## Beth a ddywedasoch wrthym a'r dasg o'n blaenau

- Mae cael llais mewn penderfyniadau yn bwysig iawn, er bod y nifer o bobl sy'n credu y gallant ddylanwadu mewn gwirionedd ar benderfyniadau yn isel.
- Yn gyffredinol dywedodd trigolion Bro Morgannwg eu bod yn teimlo'n ddiogel mewn bywyd bob dydd, er bod pobl fel y gellid disgwyl yn teimlo'n llai diogel ar ôl iddi dywyllu. Nodwyd mai diffyg troseddu oedd un o'r pethau mwyaf cadarnhaol am fyw ym Mro Morgannwg; fodd bynnag, roedd pobl hŷn yn enwedig yn teimlo bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem yn eu hardal.
- Roedd canran trigolion Bro Morgannwg a nododd eu boddhad bywyd fel 7 allan o 10 neu uwch
- ychydig yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU, ond drwy gydol ein hymgyrch ymgysylltu Amser Siarad, roedd trigolion yn gadarnhaol iawn.
- Ystyrir bod rhyngweithio cymunedol â grŵp a ffrindiau a chymdogion yn bwysig ar gyfer llesiant.
- Bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried beth yw'r asedau yn ein cymunedau y mae angen i ni adeiladu arnynt a sut mae gwella ymgysylltiad gyda'n cymunedau lleol .

## Uchafu Cyfleoedd a Chyrhaeddiad

Mae rhan hon yr asesiad yn canolbwyntio ar addysg, cyflogaeth, busnes, diwylliant a thwristiaeth. Trwy sicrhau y gall trigolion Bro Morgannwg fwyafu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol: a Cymru Ffyniannus, Cymru Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynol, a Cymru o Ddiwylliant Egnïol a'r Iaith Gymraeg sy'n Ffynnu, Cymru Iachach  a Chymru Wydn.

Amlinellir isod ystod o'n canfyddiadau allweddol o'r adran hon o'n hasesiad.

### Addysg a Sgiliau

- Mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu bod y cyfleoedd mwyaf ar gyfer newid cyfleoedd bywyd yn gorwedd yn y blynyddoedd cyn ysgol, er bod gweithredu'n bwysig ar bob lefel o fywyd plentyn. Y ganran o blant 4-5 oed a gyrhaeddodd y canlyniad disgwyliedig neu'n uwch yn y Cyfnod Sylfaen oedd 91.2% yn 2015/16, yr 2il uchaf yng Nghymru.
- At ei gilydd, mae safonau wedi gwella ym mhob un o'r dangosyddion perfformiad addysg allweddol ac ym mhob achos bron, bu cyfradd y gwelliant yn fwy yn y Fro na chyfartaledd Cymru. Erys presenoldeb yn yr ysgol yn y chwartel uchaf o ran perfformiad yng Nghymru ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd.
- Er bod Bro Morgannwg ar y cyfan yn perfformio'n dda o ran disgyblion CA4 sy'n cyflawni trothwy lefel 2 o gymharu ag eraill yng Nghymru, mae lefelau cyrhaeddiad yn amrywio'n fawr ar draws y sir.
- Ym Mro Morgannwg mae 11.8% o ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- Ym mhob un o'r prif ddangosyddion perfformiad ar draws pob cyfnod, mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ers 2012, er nid bob amser ar yr un gyfradd â'u cyfoedion.
- Mae canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dod yn NEET yn parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn ac yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2015-16. Mae'r Fro wedi perfformio'n dda ym mhob grŵp oedran yn 2015/16.
- Yn 2014/15, y gyfradd lwyddo ar gyfer cyrsiau addysg oedolion a chymunedol i ddysgwyr blaenoriaeth ym Mro Morgannwg oedd 86%.
- Mae lefelau cymwysterau ar gyfer pobl 16-64 oed yn y Fro yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- Mae amrywiaeth o brojectau yn cael eu gwneud i wella sgiliau digidol a mynediad digidol ar draws Bro Morgannwg.

## Cynhwysedd Ariannol

- Mae enillion wythnosol cyfartalog yn y Fro yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU ond gellir gweld gwahaniaethau mewn incwm ym Mro Morgannwg. Mae incymau canolrifol aelwydydd yn y Barri yn sylweddol is na rhannau o  Ddwyrain a Gorllewin y Fro.
- Ar draws Cymru mae 17% o'r boblogaeth yn dioddef amddifadedd incwm o'i gymharu â 14% yn y Fro. Ar lefel ACEHI, Dinas Powys 1 oedd â’r ganran isaf o boblogaeth sy'n profi amddifadedd incwm (4%), o'i gymharu â Gibbonsdown 2 a oedd â’r uchaf ar 41% - mwy na dwbl ffigwr cyfartalog Cymru.
- Mae ardaloedd y Fro sydd â’r incwm aelwydydd isaf hefyd y rhai sydd â'r cyfraddau cyflogaeth isaf.
- O’r rhai sy’n economaidd actif yn y Fro, mae 74% mewn cyflogaeth, sydd ychydig yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru a’r DU. Mae 4% yn ddi-waith sy’n is na chyfartaleddau Cymru a’r DU.  O’r rhai sy’n economaidd anweithredol yn y Fro, mae 28.2% eisiau cael swydd, sydd ychydig yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru a’r DU.
- Dangosodd canlyniadau’r arolwg Amser Siarad fod rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn teimlo y byddai eu llesiant economaidd yn lleihau dros y 5 mlynedd nesaf.

## Economi a Chyflogaeth

- Bydd amrywiaeth o brojectau seilwaith ac adfywio yn cefnogi ymhellach dwf economaidd yn y Fro a'r rhanbarth ehangach fel y Brifddinas-Ranbarth ac Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd.
- Mae’r Fro yn rhan o’r Brifddinas-Ranbarth ac mae hyn yn darparu’r cyfle ar gyfer buddsoddi a chydweithio sylweddol ar draws y rhanbarth er budd ein cymunedau lleol a gweddill Cymru.
- Wrth ystyried y newid a ragwelir mewn swyddi yn ôl diwydiant yn 2020 o'i gymharu â 2014, rhagwelir y bydd y colledion mwyaf mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, a gweithgynhyrchu diwydiannau plastig.  Rhagwelir y cynnydd mwyaf mewn swyddi gofal preswyl a bwytai a diwydiannau gwasanaeth bwyd symudol.
- Mae atyniad lleoedd yn cael ei gydnabod fel un o'r ffactorau pwysicaf i helpu busnesau i ffynnu.
- Mae’r Fframwaith Canol y Dref yn cydnabod pwysigrwydd ardaloedd canol trefi ar gyfer pob agwedd ar lesiant ac mae’n rhoi gweledigaeth a blaenoriaethau strategol er mwyn cynnal yr asedau pwysig hyn.
- Mae gan Fro Morgannwg y gyfradd uchaf o fusnesau sy'n cyrraedd 5 mlynedd o fasnachu yng Nghymru.
- Mae canran y bobl oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) wedi cynyddu ac mae bellach yn unol â chyfartaledd Cymru yn gweithio. Priodolir hyn i gyfartaledd Cymru yn disgyn yn hytrach na chyfradd yn y Fro cynyddu'n sylweddol. Gellir gweld y canrannau uchaf o bobl oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn y Barri a Sain Tathan yn y Fro Orllewinol. Bu canran hawlwyr JSA 17-24 oed yn y Fro yn unol â chyfartaledd Cymru yn y gorffennol, ond dechreuodd gynyddu’n uwch na'r cyfartaledd ym Medi 2015.
- Mae gan y Fro ganran is na chyfartaledd Cymru o aelwydydd di-waith a phlant sy'n byw mewn cartrefi di-waith.
- Mae canran y bobl oed gwaith 50+ oed sydd mewn cyflogaeth yn uwch yn y Fro na chyfartaledd Cymru.

- Nododd cyfran uwch o ymatebwyr Amser Siarad fod gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn na'r rhai a ddywedodd nad oedd y gweithgareddau hyn yn bwysig.
- Mae cyfanswm y nifer o ymwelwyr i Fro Morgannwg i ddibenion twristiaeth yn parhau i gynyddu. Ers adroddiad Twristiaeth STEAM a gynhyrchwyd yn 2004-2015, bu cynnydd o 18.2% yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal. Yn ogystal, bu cynnydd o 65.9% yn effaith economaidd twristiaeth ym Mro Morgannwg yn ystod y cyfnod hwn a chynnydd o 17.5% yng nghyfanswm cyflogaeth a gefnogir gan y diwydiant twristiaeth.
- Nodwyd agosrwydd y Fro i Gaerdydd a chyfleoedd diwylliannol y brifddinas fel ased yn ystod yr ymgyrch ymgysylltu.
- Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru, wrth ystyried p'un a yw trigolion wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, ymweld â lleoedd hanesyddol neu ymweld ag amgueddfa yng Nghymru, bod y Fro yn sgorio'n uchel o'i chymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru.
- Mae canran is o drigolion y Fro yn gallu siarad Cymraeg na'r ganran genedlaethol.
- Gofynnwyd i ymatebwyr Amser Siarad ystyried pa mor bwysig oedd amrediad o agweddau iddynt gan gynnwys crefydd, y celfyddydau a diwylliant, chwaraeon, yr iaith Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Cymru. Yr iaith Gymraeg oedd y mater y teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr nad oedd yn bwysig o gwbl, a'r mater y teimlai'r lleiaf o ymatebwyr lleiaf oedd yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn. Fodd bynnag, nododd nifer uchel o ymatebwyr bod diwylliant a threftadaeth Cymru yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn.

## Trafnidiaeth

- Mae'r amcanion yng Nghynllun Trafnidiaeth Lleol y Fro sy'n ategu Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys: cynyddu nifer y teithiau beicio, cynyddu nifer y lleoedd parcio a theithio a defnyddwyr, lleihau tagfeydd a gwella ansawdd yr aer ar gyffyrdd strategol a gwella hygyrchedd i wasanaethau bws.
- Mewn ymateb i Ddeddf Teithio Byw (Cymru) 2013, mae'r Cyngor yn ceisio ymdrin â'r materion trafnidiaeth mewn ardaloedd o anweithgarwch o fewn ardal clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yn y Barri yn ogystal â chanolfannau poblogaeth eraill. Mewn lleoliadau gwledig lle na ellir cyflawni Cynlluniau Teithio Byw, bydd trafnidiaeth gymunedol a darpariaeth gwasanaeth bws yn cael ei hyrwyddo i gefnogi gwelliannau mewn hygyrchedd ar gyfer y grwpiau defnyddwyr sydd fwy agored i niwed.
- Mae nifer o wasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn y Fro, yn cynnwys y gwasanaeth Llwybr Gwyrdd.
- Mae'r weledigaeth metro i'r brifddinas-ranbarth yn cynnwys rhwydwaith trafnidiaeth cyflym aml-foddol sy'n integreiddio pob modiwl trafnidiaeth gan gynnig profiad tocyn sengl 'mynychu a mynd' i'r teithiwr. Dyrannwyd £62m i'r project metro ar gyfer gwaith cynllunio a chyflenwi gwelliannau eraill i drafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth.
- Roedd trafnidiaeth yn aml yn cael ei godi fel pwnc yn ystod yr ymgysylltu a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad. Roedd ymatebwyr eisiau gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, yn arbennig amlder bysiau a threnau mewn ardaloedd gwledig er bod rhai yn teimlo bod y gwasanaethau'n dda. Roedd cyflwr ffyrdd a phalmentydd hefyd yn fater a godwyd yn aml.
- Mae 58,800 o drigolion yn gweithio ym Mro Morgannwg. Mae 28,500 o drigolion yn gweithio yn yr ardal a 30,300 yn cymudo allan o'r ardal. Gwelir bod 14,300 o bobl yn cymudo i mewn i'r ardal. Mae'r rhan fwyaf sy'n cymudo allan o'r ardal yn gweithio yng Nghaerdydd a niferoedd llai yn cymudo i Ben-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf.

## Beth a ddywedasoch wrthym a'r dasg o'n blaenau?

- Dangosodd yr Arolwg Amser Siarad bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ar eu swydd ond roedd gwahanol brofiadau o ran cyfleoedd hyfforddi.
- Mae mynediad i, a chostau, trafnidiaeth gyhoeddus yn bryder.
- Mae canran y trigolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd wedi cynyddu ond mae gwahaniaethau – tra bod 95% o bobl dan 55 yn defnyddio'r rhyngrwyd, dim ond 54% o bobl dros 55 oed sy'n gwneud.
- Ystyrir yr amgylchedd naturiol fel un o nodweddion mwyaf deniadol y Fro ac un o'i hasedau mwyaf.
- Mae cyfranogiad gan drigolion mewn digwyddiadau celfyddydol, ymweliadau â lleoedd hanesyddol ac amgueddfeydd yn cymharu'n uchel ag ardaloedd eraill yng Nghymru.
- Bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried sut mae uchafu cyfleoedd ar gyfer grwpiau oedran a chymunedau gwahanol?
- Bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried beth yw rôl diwylliant a'r amgylchedd wrth uchafu cyfleoedd.
- Bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymgymryd â rhagor o waith er mwyn asesu llesiant diwylliant a chymhlethdod yr agwedd hon o lesiant a hyrwyddo ei phwysigrwydd e.e. mewn perthynas â llesiant corfforol a meddyliol a chyfleoedd ar gyfer ymgysylltu a rhyngweithio cymdeithasol